# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 18FED IONAWR 2017 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K.James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), B.Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D.V. Poole (Tai), T.Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg) a R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro) a C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol Cymunedau). N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro ac A151) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

J. Elias (Rheolwraig Gwasanaeth– AAY), S. Couzens (Prif Swyddog Tai ), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd), K. Peters (Rheolwraig Polisi Corfforaethol), K. Williams (Rheolwr Tai Sector Preifat), a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr N. George (Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden) a D.T. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 14EG RHAGFYR 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Rhagfyr 2016 (rhifau cofnod. 1 -7) a'i lofnodi fel cofnod cywir.

### 4. PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHAU'R DYFODOL A GYNHALIWYD AR 29AIN

**MEDI 2016 .**

PENDERFYNWYD cofnodi'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 29ain Medi 2016 (rhifau cofnod 1-5).

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**5. CANLYNIAD O YMGYNGHORIAD ANFFURFIOL AR DDARPARIAETHAU I GAEL EU CYNNWYS MEWN GORCHYMYN AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS YN YMWNEUD A RHEOLI CŴN.**

Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Arbennig ar y 12fed o Ragfyr 2016.

Fe wnaeth Pennaeth Diogelu'r Cyhoeddi gyflwyno adroddiad oedd yn manylu'r canlyniad o'r ymgynghoriad anffurfiol ar y darpariaethau i gael eu cynnwys mewn Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus yn ymwneud â rheoli cŵn.

Cafodd Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus eu cyflwyno gan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 a gall gael ei ddefnyddio i reoleiddio gweithgareddau, yn arbennig mannau cyhoeddus penodol er mwyn sicrhau fod y bobl ddeddfgadwol yn gallu defnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Oherwydd hyn, maent yn darparu cyfle i wella gallu gorfodaeth y Cyngor i ymateb i farn y cyhoedd yn ymwneud â baeddu gan gŵn. Fe wnaeth y farn hon amlygu ei hun drwy gwynion i swyddogion ac Aelodau, Arolwg Tai'r Cyngor, a phryderon a godir drwy'r broses Eich Llais. O ganlyniad, cafodd ymgynghoriad anffurfiol ei arwain a darparwyd cymorth er mwyn gweithredu yn erbyn perchnogion cŵn anghyfrifol, er cafodd y mwyafrif o ymatebion eu derbyn gan berchenogion cŵn eu hunain. Roedd cytundeb cryf gyda'r mwyafrif o'r cynigion a gyflwynwyd, ond gyda'r eithriad o wahardd cŵn ar gaeau chwaraeon lle'r oedd barn yn fwy rhanedig.

Nodwyd fod cyfanswm o 456 holiadur wedi cael eu cwblhau ar-lein, ynghyd â nifer o ymatebion ysgrifenedig ychwanegol gan unigolion a rhanddeiliaid. O ymatebwyr yr holiadur, fe wnaeth 92% nodi eu hunain fel trigolion, ac roedd 65% o'r ymatebwyr yn berchenogion cŵn.

O'r arolwg, roedd mwy o gefnogaeth i'r cynigion i orfodi gwahardd cŵn o feysydd chwarae/ man chwarae amlddefnydd, cŵn ar dennyn mewn Gerddi Coffa Amgaeëdig, Cŵn yn Baeddu, Cario cynhwysydd priodol, Cŵn ar Dennyn drwy Gyfeiriad a Gofynion Ychwanegol ar gyfer rhoi cŵn ar dennyn bob amser mewn rhai ardaloedd Serch hynny, roedd llai o gymorth ar gyfer y cynnig i Eithrio cŵn o bob cae chwarae/chwaraeon sy'n berchen i'r cyngor (54% dros, 46% yn erbyn.) Roedd nifer o glybiau chwaraeon lleol o blaid y cynnig, serch hynny, derbyniwyd cynrychiolaethau yn erbyn y cynnig gan bobl hyn a phobl anabl oherwydd hygyrchedd a diffyg mannau eraill.

Trafododd aelodau'r adroddiad a phwysleisio eu pryderon yn ymwneud a pherchenogion cŵn anghyfrifol o fewn eu wardiau, ac ar draws y Fwrdeistref.

Wrth nodi'r argymhelliad diwygiedig gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Arbennig, gofynnodd y Cabinet am welliant ychwanegol mewn perthynas â darparu'r adroddiad Craffu ym mharagraff 4.15, ac eithrio cŵn o bob maes chwarae/chwaraeon wedi'u marcio sy'n berchen i'r cyngor ar sail dymhorol yn ôl defnydd, a bod y cynnig hwn yn cael ei hepgor o gam nesaf y broses a'i ail-ymweld o fewn cyfnod o 12 mis, ac unwaith y bydd effaith y darpariaethau eraill yn cael eu sefydlu ac ystyriaeth yn cael ei rhoi i weithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â chaeau chwaraeon a pherchnogaeth cŵn cyfrifol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD fod cael ystyriaeth ar gyfer argymhellion o Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion ac fel yr amlinellir yn y cyfarfod: -

(i) y cyfyngiadau canlynol i gael eu cynnwys yn y gorchymyn drafft, a'r broses gwneud gorchymyn statudol (gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol) i gychwyn: -

- Eithrio cŵn o fannau chwarae amlddefnydd a meysydd chwarae amgaeëdig i blant;
- Mae'n ofynnol i roi cŵn ar dennyn ym mhob gardd goffa amgaeëdig o fewn y Fwrdeistref Sirol;
- Mae'n ofynnol i godi baw ci ar ôl eu cŵn ar bob darn o dir cyhoeddus o fewn y Fwrdeistref Sirol;
- Mae'n ofynnol fod cerddwyr cŵn yn cario cynhwysydd priodol ar gyfer delio â'r gwastraff y mae eu ci (cŵn) yn ei gynhyrchu o fewn y Fwrdeistref Sirol;
- Mae gofyniad i roi ci ar dennyn drwy gyfarwyddyd o ddim yn fwy na 2 fetr o hyd pan mae cyfarwyddyd i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig, a allai gynnwys swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion yr heddlu a / neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

(ii) fod y cyfyngiad o eithrio cŵn o bob cae chwarae/chwaraeon wedi'u marcio sy'n berchen i'r cyngor ar sail dymhorol yn cael ei hepgor ar y cam hwn o'r broses, a chael ei hadolygu ar ôl cyfnod o 12 mis ac effaith darpariaethau eraill wedi eu gosod, y dylid rhoi ystyriaeth i weithredu ymgyrch codi ymwybyddiaeth, mewn perthynas â meysydd chwaraeon a pherchnogaeth cŵn cyfrifol.

## 6. EIDDO SY'N BERCHNOGAETH BREIFAT YM MHARC LANSBURY

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio arian o'r Rhaglen Gyfalaf Tai Sector Preifat, i gynorthwyo perchnogion preifat ym Mharc Lansbury i gymryd rhan yn y cynllun Insiwleiddio Waliau Allanol, a gynlluniwyd ar gyfer eiddo'r cyngor yn ystod 2016/17 a 2017/18.

Mae'r cyngor yn ymgymryd â chynllun insiwleiddio waliau allanol ar hyn o bryd at yr eiddo sy'n berchen i'r cyngor ym Mharc Lansbury fel rhan o'r rhaglen SATC gyffredinol. Mae'r cynllun ar gyfer 2016/17 yn cael ei ymgymryd â drwy drefniant partneriaeth gydag Ynni EON, ond mae wedi ei gynllunio ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag eiddo o fewn perchnogaeth y cyngor. Mae tua 700 eiddo ym Mharc Lansbury ac y mae 526 yn berchen i'r cyngor. Mae'r gweddill o dan berchenogaeth breifat, naill ai perchennog yn berchen neu wedi eu rhentu'n breifat.

Mae swyddogion, ar ôl astudio'r ardal, yn teimlo bod canlyniad llawer mwy llwyddiannus, o ran adfywiad corfforol Parc Lansbury, yn cael ei gyflawni os bydd perchenogion preifat hefyd yn cymryd rhan yn y cynllun EWI. Yn naturiol, serch hynny, er mwyn annog cyfranogiad ystyrlon gan berchenogion preifat, byddai'n anochel yn gwarantu'r cynnig o gymorth ariannol mewn ffurf cymorth grant.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r potensial i roi cymorth i berchenogion preifat ym Mharc Lansbury ar ffurf cymorth grant o 75% a chydnabod ffynhonnell cyllid posib i hwyluso cynnig o'r fath.

Diolchodd Aelodau'r Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Fe wnaeth Aelod, wrth nodi fod cyhoeddusrwydd diweddar wedi bod o amgylch yr adolygiad o Grant Arbed Ynni o Lywodraeth Cymru, ofyn am wybodaeth bellach ar gymhwysedd y Cyngor.

Esboniodd y Swyddogion fod y meini prawf cymwys yn aneglur ar hyn o bryd, serch hynny, os oedd cyfle, byddai cynigion yn cael eu cyflwyno ar gyfer y llif grant cyllido.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, os na fyddai cyllid Llywodraeth Cymru ar gael fel yr amlinellir ym mharagraff 4.12 o adroddiad y Swyddog:

(i) cymorth ariannol i'r perchenogion tai hynny ym Mharc Lansbury sy'n dymuno cymryd rhan yng nghynllun Wal Allanol Insiwleiddio CBSC a gynlluniwyd, yn cael ei gynnig yn y modd a amlinellwyd ym mharagraff 4.11 o'r Adroddiad;

(ii) fod cyllid 2016/17 ar gyfer y fenter ar gael o gyllidebau Cyfalaf Tai Sector Preifat presennol.

(iii) fod cyllid 2017/18 ar gael o unrhyw danwariant gyllideb Tai Sector Preifat 2016/17, gydag unrhyw gyllid ychwanegol a allai brofi'n angenrheidiol i gael eu lleoli gan y gyllideb Cyfalaf Tai Sector Preifat 2017/18.

## 7. LLE ROWAN, RHYMNI – DYMCHWELIAD ARFAETHEDIG O'R FFLATIAU – BLOC 65-68

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddymchwel bloc ychwanegol o fflatiau yn Lle Rowan, Rhymni ar y cyd â gwelliant cyflwr corfforol yr ystâd.

Yn dilyn adnabyddiaeth diffygion lleithder ac allanol difrifol i adeiladwaith allanol yr eiddo yn Lle Rowan, mae prif raglen fuddsoddi sylweddol yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i ddod â'r eiddo i Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn dilyn dymchwel un bloc o bedwar fflat o'r 68 stoc sy'n berchen i'r Cyngor, mae 44 o'r eiddo yn 2 fflat ystafell wely yn cynnwys 11 bloc. Mae hyn yn grynodiad mawr mewn ardal fach iawn.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i ddymchwel un bloc o fflatiau i leihau dwysedd yr ystâd, ac i gydnabod bod yna nifer fawr o fflatiau dwy ystafell wely, roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ddymchwel bloc arall oherwydd y galw isel parhaus yn yr ardal sy'n parhau i fod, i wella agwedd amgylcheddol yr ystâd hon ac i sicrhau arbedion ariannol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a dilynwyd hyn gan drafodaeth yn ymwneud â'r materion dileu yn Lle Rowan. Nodwyd y cafodd gweithfeydd helaeth ei ymgymryd i wella esthetig gyffredinol yr ystâd, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, fel diwrnodau hwyl, diwrnodau agored a barbeciws i godi proffil ac annog gosodiadau pellach, ond yn ofer.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) dymchwel arfaethedig o 65-68 Lle Rowan a gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i drosglwyddo dwy brydles newydd fel yr amlinellir ym mharagraff 4.8 o'r adroddiad gael ei gymeradwyo;

(ii) er mwyn osgoi oedi pellach o ganlyniad i ystlumod mudol, bydd Swyddogion yn dilyn opsiynau ar gyfer ymgymryd â'r gwaith cyn diwedd Mawrth 2017;

(iii) fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, dylid gofyn am adroddiad gan y Prisiwr Ardal ar werth y farchnad agored y ddwy fflat ar brydles.

8. **CANOLFAN ADNODD ARBENIGOL YSGOL TRECELYN**

Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar yr 11eg o Ionawr 2017, a gofynnwyd am drafodaeth bellach ar Archwiliad. Fel y cyfryw, fe wnaeth y Cabinet nodi fod Llinell Amser Ymgynghoriad o fewn yr adroddiad wedi cael ei ddiwygio, a chafod copi diweddaraf ei rhoi allan yn y cyfarfod.

Cafodd adroddiad ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar y 3ydd o Dachwedd 2015 a oedd yn manylu cynnydd yr Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nododd yr Aelodau'r cynnydd a wnaed ac y byddai adolygiad ymddygiad ar wahân yn ystyried trefniadau ar gyfer darpariaeth arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion plant ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Ym mis Chwefror 2016 fe wnaeth Corff Llywodraethol Ysgol Trecelyn hysbysu'r Awdurdod Lleol o ganlyniad i nifer y disgyblion gynyddu ar y gofrestr, nid yw bellach yn dymuno cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfnod Allweddol 3, y mae'r ysgol yn cyfeirio ato fel y Ganolfan Cynhwysiant. Fe wnaeth yr adroddiad ddarparu'r Cabinet gyda diweddariad ar statws yr adolygiad o ddarpariaeth ar gyfer plant ag Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol a gofynnodd am gymeradwyaeth i gychwyn ymgynghoriad ar gau'r Ganolfan Adnoddau Arbennig yn Ysgol Trecelyn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, fod yr adroddiad yn cael ei nodi a fod dechrau'r broses o ymgynghori yn cael ei gymeradwyo.

**ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

9. **ADOLYGIAD O BOLISI DARPARIAETH REFENIW LLEIAFSWM**

Cafodd yr adroddiad ei gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau Arbennig ar y 7fed o Ragfyr 2016 a darparwyd yr Aelodau gydag opsiynau ar gyfer newidiadau arfaethedig i bolisi Lleiafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyngor.

Darpariaeth Refeniw Isafswm yw dull yr Awdurdodau Lleol i godi tâl ar eu cyfrifon refeniw dros amser gyda chost eu gwariant cyfalaf a ariannwyd yn wreiddiol gan ddyled. O 2007/8 ymlaen, mae Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhydd i osod eu polisïau eu hunain ar gyfrifo DRI, gyda'r amod deddfwriaethol unig fod rhaid i'r swm a gyfrifwyd fod yn un y mae'r Cyngor yn ystyried i fod yn "bwyllog".

Nodwyd bod llawer o Awdurdodau Lleol wedi adolygu eu polisïau DRI i gynhyrchu arbedion sylweddol i gefnogi eu Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig, oherwydd pwysau cynyddol ar gyllidebau. Yng Nghymru, mae adolygiadau o'r fath wedi cael eu hymgymryd gan Gynghorau Torfaen, Merthyr Tudful, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf a Sir Fynwy.

Roedd Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2017/18 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar y 30ain o Dachwedd 2016 yn cynnwys cynnig arbedion o £3.5m i'w cyflawni drwy adolygiad o bolisi DRI y Cyngor.

Polisi cyfredol y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir o fenthyciadau a gefnogir yw bod DRI yn cael ei godi ar refeniw ar 4% yn unol â'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) Dull ar sail balans sy'n gostwng. Yn seiliedig ar fenthyca agored a gefnogir Gofyniad Cyllido Cyfalaf o £175.746m fel yr oedd ar y 1af o Ebrill 2016, a'r tâl 2016/17 ar gyfer benthyciadau a gefnogir

yw £7.030m.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn mabwysiadu'r dull Bywyd Asedau gan ddefnyddio'r Dull Rhandaliadau Cyfartal ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca heb gymorth (cynghorus). Mae hyn yn caniatáu codi tâl ar refeniw dros gyfnod o 25 mlynedd, sy'n cael ei ystyried fel bywyd defnyddio amcangyfrifedig. Mae'r tâl yn sefydlog. Yn seiliedig ar agoriad benthyca heb ei gefnogi Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) o £ 16.073 ar y 1af o Ebrill 2016, mae'r tâl DRI 2016/17 ar gyfer benthyciadau heb gefnogaeth yn £ 0.831m.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried 2 opsiwn arall ar gael i godi tâl y Ddarpariaeth Refeniw Isafswm ar fenthyciadau a gefnogwyd a heb gefnogaeth h.y. Dull Tâl Sefydlog a Dull Blwydd-dal, yn seiliedig ar y canlynol: -

- Atebolrwydd dyled hanesyddol ar y 31ain o Fawrth 2007 ac mae gwariant cyfalaf dilynol a gyllidir o fenthyciadau a gefnogwyd i gael eu codi ar refeniw dros 50 mlynedd.
- Y tâl Darpariaeth Refeniw Isafswm ar gyfer asedau unigol a ariennir drwy fenthyca heb gymorth i fod yn seiliedig ar fywyd amcangyfrifedig pob ased neu 25 mlynedd lle na all hyn gael ei benderfynu.
- Mae cyfradd blwydd-dal tybiedig o 2% ar gyfer benthyca â chymorth.
- Mae'r gyfradd blwydd-dal ar gyfer benthyciadau heb gefnogaeth i'w seilio ar y PWLB gyfartaledd cyfradd llog ar gyfer benthyciadau blwydd-dal newydd yn y flwyddyn y bydd yr ased yn dod yn weithredol.

Arbediad cylchol uniongyrchol o thua £3.5 miliwn ar gael i gefnogi cyllideb refeniw 2017/18 drwy fabwysiadu un o'r dewisiadau arfaethedig. Yn ychwanegol at y gyllideb refeniw bydd arbed y dull sefydlog yn cynhyrchu symiau untro ychwanegol o thua £3.8m yn 2016/17 a £0.232m yn 2017/18 i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf. Bydd y dull blwydd-dal yn cynhyrchu swm untro ychwanegol o thua £5.5m yn 2016/17 a symiau untro blynyddol ychwanegol i gefnogi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer nifer o flynyddoedd fel y manylir ym mharagraff 4.6.8 yn yr adroddiad. Mae'r cyfanswm tâl DRI sydd yn ofynnol i ddileu'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf llawn yr un peth o dan y dulliau sefydlog a blwydd-dal.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD bod cael ystyriaeth am sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cabinet ac Adnoddau Polisi Arbennig, ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ei fod yn cael ei argymell i'r Cyngor y dylid newid y Polisi DRI, o blaid y dull blwydd-dal yn cael ei gymhwyso i fenthyca â chymorth a heb gymorth, i gael ei gymeradwyo

## 10. STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2017-2022

Roedd yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer drafft 5 mlynedd Strategaeth yr Iaith Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Safonau 145 a 146 o Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, cyn cyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth.

Mae'r ofynnol i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth 5 mlynedd sy'n gosod allan sut maent yn cynnig hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Rhaid i'r strategaeth gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal y nifer o siaradwyr Cymraeg a datganiad sy'n gosod allan sut maent yn bwriadu cyrraedd y targed. Rhaid i'r strategaeth gael ei hadolygu a'i diwygio bob 5 mlynedd.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad yn eithaf hir, a chodwyd pryderon yn ymwneud â chost ychwanegol a phwysau llwyth gwaith ar yr Awdurdod, o ganlyniad i'r Safonau. Eglurodd y Swyddogion fod Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ofyniad o'r Safonau ac yn hyrwyddo'n gadarnhaol yr Iaith Gymraeg drwy gynnig cyfleoedd i gynyddu'r nifer o Siaradwyr Cymraeg o

fewn y Fwrdeistref. Yn ychwanegol, esboniwyd fod CBS Caerffili wedi gwneud nifer o gynrychiolaethau i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â phryderon dros nifer o Safonau a'r goblygiadau i'r Awdurdod. Nodwyd fodd bynnag y rhagwelir adolygiad ar Safonau'r Iaith Gymraeg, a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu i'r Cabinet pan fydd ar gael.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog y byddai Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.30pm

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Chwefror, 2017.

________________________

CADEIRYDD